# Cydymffurfio ag Archebion Prynu

## Fersiwn 3.0

2024

sirgar.llyw.cymru

Cyngor **Sir Gâr**
**Carmarthenshire**
County Council

# Cynnwys

Beth yw Polisi Cydymffurfio ag Archebion Prynu? ....1
Beth yw'r manteision o gydymffurfio ag Archebion Prynu? ....2
Siart cydymffurfiaeth ag Archebion Prynu ....3
Siart diffyg cydymffurfiaeth ag Archebion Prynu ....4
Defnydd presennol o archebion prynu yng Nghyngor Sir Caerfyrddin ....5
Gweithredu'r polisi Cydymffurfio ag Archebion Prynu ....6
Materion a allai godi ....6
Gweithdrefnau Argyfwng ....7
Ymdrin â diffyg cydymffurfiaeth ....8
Cam 1 Hysbysiad cychwynnol i gyflenwyr ....9
Cwestiynau Cyffredin am Gydymffurfio ag Archebion Prynu.... 10
Tudalen Cyflenwyr ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin.... 12
Astudiaethau Achos .... 13
Atodiad 1 – Llythyr i gyflenwyr ynghylch diffyg cydymffurfio .... 14
Atodiad 2 – Llythyr i Staff.... 15
Atodiad 3 - Eithriadau .... 16
Atodiad 4 - Gweithdrefn archebion ôl-weithredol oherwydd diffyg cydymffurfio .... 17

# Beth yw Polisi Cydymffurfio ag Archebion Prynu?

Mae polisi Cydymffurfio ag Archebion Prynu (APOC) yn broses effeithlon i sicrhau cydymffurfiaeth uchel ag archebion prynu. Dyma'r sylfaen waelodol ar gyfer archebu, derbyn a thalu am nwyddau a gwasanaethau yn effeithlon. Mae'n cynnwys nifer o gamau sy'n disgrifio'r broses o'r dechrau i'r diwedd; o archebu cynnyrch neu wasanaeth gan gyflenwr, hyd at wneud y taliad dilynol. Prif gamau'r broses hon yw gwneud cais am archeb, awdurdodi cyllideb, archebu cynnyrch, derbyn nwyddau a phrosesu anfoneb. (Mae llawer o sefydliadau'n cyfeirio at y math hwn o bolisi fel 'Dim Archeb Brynu, Dim Tâl').

**Mae angen i ni weithredu'r math hwn o ddull i ysgogi defnydd sylweddol uwch o'r broses Archebion Prynu (sef ein polisi datganedig eisoes).**

Mae'r broses yn dechrau trwy fod adran yn sefydlu angen am nwyddau neu wasanaethau. Yna bydd yr adran yn codi cais am archeb ar y System Rheolaeth Ariannol am y nwyddau/gwasanaeth. Wedyn mae angen i'r cais am archeb hwn gael ei gymeradwyo gan lofnodwr awdurdodedig, ac ar ôl hynny cynhyrchir archeb brynu gyda rhif unigryw a chaiff yr ymrwymiad i'r gwariant ei greu yn erbyn y gyllideb. Wedyn caiff yr archeb brynu ei hanfon at y cyflenwr, bydd yn cyflawni'r archeb ac yn darparu'r nwyddau neu'r gwasanaethau sydd eu hangen.

Mae'r adran yn cofnodi bod yr archeb wedi'i chyflawni'n llwyddiannus (derbynebau nwyddau) ar y System Rheolaeth Ariannol. Ar yr un pryd mae'r cyflenwr yn codi anfoneb gan ddyfynnu rhif yr archeb brynu a roddwyd yn flaenorol. Ar dderbyn yr anfoneb, caiff cyfatebiaeth dair ffordd ei dilysu, rhoddir taliad i'r cyflenwr, caiff yr archeb ei dadneilltuo a chaiff y gwariant ei gofnodi.

Mae’r cysyniad yn syml: os derbynnir anfoneb gan gyflenwr heb rif archeb brynu dilys, ni fydd yn cael ei thalu nes bod rhif archeb brynu dilys yn cael ei dderbyn. Fodd bynnag, mewn gwirionedd bydd yna bob amser eithriadau a fydd yn cael eu diffinio ymlaen llaw.

Nid yw'r polisi hwn yn ffordd gyflym o ddatrys proses gaffael aneffeithlon. I weld manteision yr offeryn rhaid i ni wreiddio'r ideoleg yn ethos Cyngor Sir Caerfyrddin. Rhaid i ni egluro pwysigrwydd y polisi i'n staff a chyfleu pwysigrwydd y polisi yn rheolaidd ynghyd a'i fanteision eang. Mae'n hanfodol bod pob adran yn gweld y polisi newydd fel rhywbeth buddiol sy'n hwyluso busnes ac nid fel rhwystr.

Mae angen hyrwyddo'r manteision fel disgyblaeth, NID fel opsiwn. Mae'r cam cyntaf hwn yn hanfodol er mwyn ei gyflwyno'n llwyddiannus.

<u>Sylwer: Tra bod y ddogfen hon yn ymwneud yn bennaf ag anfonebau a brosesir drwy Unit4 ERP, dylid cymhwyso'r un egwyddorion i systemau eraill megis Total a Care First. Fodd bynnag, nid yw'n disodli'r gweithdrefnau system leol hynny.</u>

# Beth yw'r manteision o gydymffurfio ag Archebion Prynu?

Mae'r manteision o gydymffurfio ag Archebion Prynu i'w teimlo drwy'r sefydliad:

1. Taliadau effeithlon - Nid yw'r cyflenwyr yn profi ansicrwydd / oedi wrth dalu. Llai o gymryd rhan â llaw yn y broses dalu.

2. Gwell perthynas â chyflenwyr. Annog cyflenwyr i fod rhan o'r broses. Lleihau'r posibilrwydd o effeithio ar fodloni telerau talu, sy'n arwain at gosbau taliadau hwyr, difrodi perthynas a'r posibilrwydd o darfu ar gyflenwadau.

3. Mae cydymffurfio ag archebion prynu yn gam hanfodol ar y ffordd i anfonebau di-bapur.

4. Cofnodir ymrwymiadau gwariant ar y System Rheolaeth Ariannol gan felly sicrhau tryloywder ariannol a rheolaeth ariannol/cyllidebol haws a gwell sydd yn ei dro yn ei gwneud hi'n haws cynllunio.

5. Caiff gweithdrefnau ariannol eu dilyn. Caiff gwendidau eu cynnwys gyda gwell rheolaeth. Caiff gwariant didoreth gan swyddogion anawdurdodedig ei atal. Mae'r bobl gywir yn awdurdodi, cyn mynd i wariant nid ar ôl derbyn nwyddau.

6. Caiff risg ei lleihau. Mae cyfatebiaeth 3-ffordd a thâl yn cyfrannu at ddiogelu, yn helpu i osgoi anfonebau twyllodrus a thalu swm anghywir. Mae'r tîm Cyfrifon sy'n Daladwy yn gwirio'r dogfennau canlynol ar gyfer cyfatebiaeth dair ffordd:

- Yr archeb brynu a godwyd
- Nodyn derbyn y nwyddau
- Anfoneb y Cyflenwr


7. Caiff cyflenwyr eu sefydlu ymlaen llaw. Caiff gwiriadau a manylion y cyflenwyr eu cadarnhau ymlaen llaw, gan leihau oedi wrth dalu. Rhoddir gwybod i'r cyflenwyr sut y byddant yn cael eu talu. Cydymffurfio â statws cyflogaeth (treth).

8. Gall annog mwy o ddefnydd o gyflenwyr a chontractau a ffefrir presennol.


9. Gall gwell gwybodaeth am wariant arwain at well caffael yn y dyfodol.

10. Mae'r graffeg canlynol yn dangos y prosesau gyda a heb ddefnyddio system Cydymffurfio ag Archebion Prynu.

# Siart cydymffurfiaeth ag Archebion Prynu



# Siart diffyg cydymffurfiaeth ag Archebion Prynu



# Defnydd presennol o archebion prynu yng Nghyngor Sir Caerfyrddin

Mae gennym eisoes y datganiad canlynol ar ein harchebion prynu swyddogol ond nid yw'n cael ei orfodi'n weithredol:

***'Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i dalu'r anfonebau hynny sy'n nodi rhif archeb brynu dilys yn unig.'***

**Taliadau AP (heb fod yn archebion) / OP (archebion) 2023/24 (ac eithrio ysgolion a mân daliadau)**

*54,780 o daliadau AP/OP, cyfanswm gwerth £134,680,097*

*27,654 o daliadau OP, gwerth £49,198,473*

*27,126 o daliadau AP, gwerth £85,481,624*

**Mae'r ffigur AP yn cynrychioli ymrwymiad posibl sydd naill ai ar goll o'r system neu sy'n gofyn am fewnbwn â llaw.**

# Gweithredu'r polisi Cydymffurfio ag Archebion Prynu

Cam 1

1. Mae cyfleu pwysigrwydd y polisi Cydymffurfio ag Archebion Prynu yn rheolaidd o fewn Cyngor Sir Caerfyrddin yn gam cyntaf hanfodol. Hyrwyddo'r manteision. Mae'n hanfodol bod pob adran yn cydnabod y polisi fel mantais ac nid fel rhwystr
2. Mae cefnogaeth o'r brig i lawr yn hanfodol
3. Hysbysiad ar Wefan Cyngor Sir Caerfyrddin – Creu maes Cyflenwyr – rhoi rhybudd ymlaen llaw am y polisi (gweler Awdurdodau eraill)
4. Cyflenwyr Cyswllt – canolbwyntio ar sut y bydd y polisi o fudd iddynt
5. Caffael i gynnwys hyn mewn contractau
6. Gweithdrefn eithriadau – nodi a dal eithriadau
7. Gweithdrefn frys – diffinio
8. Defnyddio adran(au) peilot
9. Sefydlu'r amserlen. Er mwyn i'r polisi weithio, mae angen i bawb ei gefnogi. Ni ellir rhuthro'r broses i sicrhau'r manteision
10. Monitro ac adrodd am gydymffurfiaeth defnyddwyr a chyflenwyr
11. Ymdrin â diffyg cydymffurfiaeth

## Materion a allai godi

| Mater posibl | Lliniaru |
|---|---|
| Nid yw pob cyflenwr archeb brynu yn dyfynnu rhifau archeb brynu dilys ar anfonebau | Gweler tudalennau 8 a 14 |
| Anhawster gorfodi cydymffurfiaeth fewnol | Gweler tudalennau 7, 8 a 15 |
| Mae angen i staff dderbyn nwyddau yn brydlon ac yn briodol | Cam 1 Cyfathrebu â staff |
| Eithriadau brys yn cael eu cam-ddefnyddio | Adolygu'n rheolaidd |
| Ceisio defnyddio cynhyrchion sy'n seiliedig ar werth lle nad yw hynny'n briodol | Adolygu'n rheolaidd |

# Gweithdrefnau Argyfwng

Yn aml, bydd staff yn dweud bod oedi wrth gael rhif yr archeb brynu yn un rheswm dros beidio â chydymffurfio â'r polisi.  Mewn llawer o achosion, gall cynllunio gwell sicrhau bod ceisiadau am archeb yn cael eu codi a'u hawdurdodi mewn da bryd.

Fodd bynnag, ceir achos dros argyfyngau go iawn, pryd mae'n ofynnol i staff osod archebion ar lafar ar fyr rybudd.  Gellir rhannu'r rhain yn ddwy senario: y rheiny lle mae'n rhaid gosod yr archeb ar unwaith ac nad oes mynediad i'r system archebu, a'r rheiny lle mae'r system yn hygyrch ond efallai nad yw'r awdurdodwr ar gael ar hyn o bryd a / neu na all aros yr uchafswm amser o 1 awr er mwyn rhedeg yr archeb.  Yn yr achos olaf mae'n bosibl gwneud cais am archeb a chael rhif archeb cyn awdurdodi ar y system.  Dylid monitro a rheoli'r cyfleuster hwn yn llym a dylai ond fod ar gael i rai unigolion y nodwyd eu bod yn debygol o gael eu hunain yn y sefyllfaoedd hyn**.**

Yn achos y cyntaf, lle nad yw'r system ar gael, mae system o godi archeb ôl-weithredol wedi'i diffinio.

# Ymdrin â diffyg cydymffurfiaeth

Bydd pob cyflenwr yn cael ei hysbysu gan Gyngor Sir Caerfyrddin fel rhan o'r weithredu'r Polisi Cydymffurfio ag Archebion Prynu na ddylai dderbyn unrhyw archeb lafar neu ysgrifenedig gan staff y Cyngor oni bai bod rhif archeb brynu dilys yn cael ei roi neu fod yna eithriad y cytunwyd arno fel y nodir yn Atodiad 3.

Fodd bynnag, mae gwrthod talu cyflenwyr ar y sail nad yw wedi dyfynnu archeb brynu ond yn rhesymol os yw ein sefyllfa prynu i dalu ein hunain mewn trefn dda. **Ni fyddwn yn rhoi'r bai ar gyflenwyr am gydymffurfiad gwael o fewn ein sefydliad ein hunain** a bydd yna bob amser amgylchiadau lle nad yw'n ymarferol cyflenwi archeb brynu e.e. argyfyngau y tu allan i oriau; dylai cyflenwyr deimlo eu bod yn gallu ymateb i sefyllfaoedd o'r fath heb fygythiad o beidio â chael eu talu.

Yn gyffredinol, bydd anfonebau a dderbynnir nad ydynt yn dyfynnu rhif archeb brynu dilys yn ddarostyngedig i weithdrefn ôl-weithredol ar gyfer archebion nad ydynt yn cydymffurfio (gweler Atodiad 4) sy'n cynnwys hysbysiadau i gyflenwr archeb brynu goll ar yr anfoneb, hysbysiadau i staff sy'n gyfrifol am archeb brynu goll ar yr anfoneb a rhoi gwybod am ddiffyg cydymffurfio fel rhan o ddangosyddion perfformiad allweddol a chamau gweithredu adferol.

**Cyfathrebu â Chyflenwyr**

| Cam | Ymateb | Cam gweithredu |
|---|---|---|
| | | |
| Cam 1 | Cyfathrebu â Chyflenwyr Polisi Cyngor Sir Caerfyrddin | Hysbysu'r cyflenwr (gweler t. 9) ynghyd â thudalen we |
| Cam 2 | Nodyn atgoffa cyntaf i gyflenwyr nad ydynt yn cydymffurfio – Atodiad 1 | Atodiad 1 llythyr – NI wneir taliad nes bod rhif archeb brynu dilys yn cael ei ddyfynnu |

**Hysbysiadau staff Cyngor Sir Caerfyrddin**

| Cam | Ymateb | Cam gweithredu |
|---|---|---|
| Cam 1 | Cyfathrebu â staff Cyngor Sir Caerfyrddin ynghylch polisi'r Cyngor | Llythyr cyfathrebu safonol Cyngor Sir Caerfyrddin/e-bost/tudalen we |
| Cam 2 | Cyfathrebu â staff Cyngor Sir Caerfyrddin nad ydynt yn cydymffurfio | Atodiad 2 Llythyr gweithdrefn archeb brynu frys ac adroddiad dangosyddion perfformiad |
| Cam 3 | Cyfathrebu â'r unigolyn / rheolwr llinell | Cyngor Sir Caerfyrddin i asesu a oes angen hyfforddiant pellach ac ati. Mae'r opsiwn ar gael i gael gwared ar gyfrifoldeb archebu. |

# Cam 1 Hysbysiad cychwynnol i gyflenwyr

Mae'r hysbysiad i gyflenwyr i'w hysbysu am y polisi cydymffurfio ag archebion prynu ar wefan y Cyngor:

Rydym yn gwneud rhai newidiadau i'r modd yr ydym yn ymdrin â'n hanfonebau trwy gyflwyno polisi archebion prynu gorfodol a fydd yn helpu i brosesu anfonebau'n gyflymach ac sy'n fesur rheolaeth ariannol allweddol i'r Cyngor. Bydd hyn yn sicrhau ymhellach bod y Cyngor dim ond yn talu am nwyddau, gwasanaethau a gwaith a dderbyniwyd, ôl iddynt gael eu hawdurdodi'n briodol yn unol â fframwaith llywodraethu ariannol y Cyngor.

**I osgoi unrhyw oedi diangen o ran eich taliad, ni ddylech gyflenwi nwyddau/gwasanaethau i'r Cyngor hyd nes y byddwch wedi derbyn rhif archeb brynu dilys. Rhaid nodi rhif yr archeb brynu ar yr anfoneb cyn ei chyflwyno i'r Cyngor.**

**Efallai y caiff anfonebau a dderbyniwyd heb rif archeb brynu dilys eu dychwelyd at yr aelod o staff y Cyngor a wnaeth yr archeb fel bod modd iddo gael rhif archeb brynu dilys. Yna efallai y bydd angen iddo gysylltu â chi i ofyn i chi ailgyflwyno'r anfoneb gan ddyfynnu rhif yr archeb brynu, a thrwy hynny achosi oedi diangen i'ch taliad.**

Mae'r rhif archeb brynu yn rhifiadol ac yn dilyn fformat 1nnnnnn. Ni ddylech dderbyn unrhyw archeb ar lafar neu'n ysgrifenedig gan un o swyddogion y Cyngor oni bai bod rhif archeb brynu dilys yn cael ei roi, neu ei bod yn cael ei hystyried yn eithriad fel y nodir yn y Cwestiynau Cyffredin neu ei bod yn archeb frys. Bydd y person sy'n cyflwyno'r archeb yn rhoi gwybod i chi os bydd eithriad yn berthnasol.

Os yw eich nwyddau/gwasanaethau eisoes wedi eu darparu i'r Cyngor, ac nad ydych wedi derbyn rhif archeb brynu, dylech gysylltu â'r aelod o staff y Cyngor a roddodd y cyfarwyddyd gwreiddiol i gyflenwi'r nwyddau/gwasanaethau a gofyn iddo ddarparu rhif archeb brynu dilys.

Os ydych yn cyflenwi nwyddau/gwasanaethau'n rheolaidd i'r Cyngor ac mae gennych unrhyw gwestiynau, neu i gadarnhau eich statws, efallai y byddwch yn dymuno cysylltu â'ch cyswllt arferol.

Telerau talu safonol y Cyngor yw 30 diwrnod ar ôl derbyn anfoneb ddilys.

Eich cyfrifoldeb chi yw rhoi gwybod i'r Cyngor am unrhyw newidiadau i wybodaeth am eich busnes, gan gynnwys manylion o ran cyfrif banc, TAW a Thŷ'r Cwmnïau.

**Mae cwestiynau cyffredin ac eithriadau ar gael i'w gweld ar ein gwefan.**

# Cwestiynau Cyffredin am Gydymffurfio ag Archebion Prynu

1. Beth ydych chi'n ei olygu wrth Gydymffurfio ag Archebion Prynu?

Mae'r polisi Cydymffurfio ag Archebion Prynu yn sicrhau bod y Cyngor yn talu am nwyddau, gwasanaethau a gwaith sydd wedi'u harchebu a'u hawdurdodi'n briodol yn unig yn unol â Rheolau Gweithdrefnau Contract Ariannol yr Awdurdod CYN gwneud unrhyw ymrwymiad i wario arian y Cyngor a derbyn anfoneb. Mae hefyd yn sicrhau bod modd prosesu'r anfonebau a dderbynnir gan y tîm Cyfrifon sy'n Daladwy yn effeithlon i leihau oedi i gyflenwyr a chontractwyr. Gall anfonebau a dderbynnir gan y Tîm Cyfrifon sy'n Daladwy heb rif archeb brynu dilys achosi oedi sylweddol i'r taliad ac efallai y cânt eu dychwelyd atoch yn y pen draw.

2. Rhaid i bob anfoneb ddeillio o archeb brynu ddilys a rhaid iddi ddyfynnu rhif archeb brynu dilys. Beth yw archeb brynu ddilys?

Archeb brynu sydd wedi'i chodi a'i hawdurdodi ar fodiwl archebion prynu swyddogol yr Awdurdod ar system rheolaeth ariannol Cyngor Sir Caerfyrddin (Unit4 ERP).

3. Beth yw rhif archeb brynu dilys?

Rhif archeb brynu 8 digid yw rhif archeb brynu dilys, a gyhoeddwyd gan system rheolaeth ariannol Cyngor Sir Caerfyrddin.

4. Pam mae angen rhif archeb brynu ar gyflenwyr?

Mae rhif archeb brynu yn brawf bod archeb swyddogol wedi'i chreu a'i hawdurdodi. Gellir gwrthod prosesu unrhyw anfoneb a dderbynnir nad yw'n dyfynnu rhif archeb brynu dilys a gellir ei dychwelyd at y cyflenwr, oni bai fod eithriad yn berthnasol iddi (cytunir ar eithriadau gan weithgor trawsadrannol) wrth i'r broses fynd rhagddi. Ni ddylai cyflenwyr, o dan unrhyw amgylchiadau, dderbyn unrhyw archeb ar lafar neu'n ysgrifenedig gan un o swyddogion y Cyngor oni bai bod rhif Archeb Brynu dilys yn cael ei dderbyn, neu ei bod yn eithriad fel y nodir yn yr adran Eithriadau neu ei bod yn archeb frys.

5. Beth os nad oes gan y cyflenwr rif archeb brynu?

Dylai gysylltu â swyddog y Cyngor a wnaeth yr archeb a gofyn iddo roi rhif archeb. Os yw'r nwyddau/gwasanaethau eisoes wedi eu darparu i'r Cyngor, ac nad yw wedi derbyn Archeb Brynu gallai gysylltu â'r aelod o staff y Cyngor a roddodd y cyfarwyddyd gwreiddiol i gyflenwi'r nwyddau/gwasanaethau a gofyn iddo ddarparu rhif archeb brynu dilys. Dylai gysylltu â'r cyflenwr beth bynnag.

6. Beth yw'r fantais i'r cyflenwr?

Taliad prydlon. Cyhyd â bod y cyflenwr wedi nodi rhif Archeb Brynu dilys a gafwyd cyn cyflenwi, mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn ymrwymo i dalu anfonebau yn unol â Pholisi Talu'r Sector Cyhoeddus h.y. o fewn 30 diwrnod o dderbyn [nid dyddiad yr

anfoneb] anfoneb ddilys, neu dderbyn y nwyddau neu'r gwasanaeth, p'un bynnag sydd hwyrach.

Mae'r taliad fel arfer yn llawer cyflymach (telir y rhan fwyaf o'r anfonebau rhif archeb o fewn 10 diwrnod). Bydd angen cymryd camau pellach mewn perthynas ag anfonebau heb rif archeb ac felly byddant yn cymryd mwy o amser.

7. Pryd mae'r polisi Cydymffurfio ag Archebion Prynu yn dod i rym?

Mae'r polisi Cydymffurfio ag Archebion Prynu yn berthnasol ar unwaith.

8. Yn y gorffennol mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi talu anfonebau heb rif archeb brynu, a fydd hyn yn dal i ddigwydd?

Pan fydd y polisi wedi'i roi ar waith yn llawn, oni bai fod eithriad yn berthnasol ni fydd Cyngor Sir Caerfyrddin yn cydnabod anfonebau heb rif archeb brynu dilys ac efallai y byddant yn cael eu dychwelyd i'r cyflenwr. Yna byddai angen i chi siarad â'ch swyddog cyswllt archebion a fydd yn gofyn am rif archeb fel y gellir talu'r anfoneb.

9. A oes unrhyw eithriadau?

Oes. Mae'r rhain fel rheol yn gostau rheolaidd sy'n hanfodol ar gyfer gweithrediadau dydd i ddydd y sefydliad. Mae enghreifftiau'n cynnwys biliau cyfleustodau, biliau telathrebu, a rhenti adeiladu. Ceir rhestr o'r eithriadau sydd wedi'u diffinio ar hyn o bryd yn Atodiad 3. Bydd yna achlysuron hefyd pan fydd archeb yn anymarferol, caiff y rhain eu cwmpasu yn yr adran gweithdrefnau brys.

10. Beth os yw cyflenwr yn cyflenwi ysgolion yn unig?

Nid yw ysgolion wedi'u cynnwys yn y polisi hwn ar hyn o bryd; fodd bynnag, mae hefyd yn arfer gorau i sicrhau bod gan gyflenwyr rif archeb brynu cyn iddynt ymrwymo i unrhyw waith gydag ysgolion. Nid oes unrhyw newid i'r prosesau archebu neu dalu ar gyfer anfonebau a dderbynnir ar gyfer ysgolion am y tro.

11. Rwyf yn codi fy archebion gwaith ar Total and Care First, a oes angen i mi godi archebion ar Unit4 ERP hefyd?

Ar hyn o bryd, os ydych chi'n codi archebion gwaith ar system ffynhonnell megis Total ni fyddai disgwyl i chi godi archeb ar y system Unit4 hefyd. Ni ddylech godi mathau eraill o archebion megis deunydd ysgrifennu ar y systemau ffynhonnell.

12. Ymholiadau pellach?

Holwch gyda'ch cyswllt archebion neu'r Uned Cymorth Busnes os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach am y polisi.

# Tudalen Cyflenwyr ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin

https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/busnes/gwybodaeth-i-gyflenwyr-archebu-a-thalu/

# Astudiaethau Achos

Mae llawer o awdurdodau lleol a sefydliadau'r sector cyhoeddus wedi cyflwyno polisi Dim Archeb Brynu, Dim Tâl ac mae mwy yn bwriadu gwneud hynny:

Blaenau Gwent https://www.blaenau-gwent.gov.uk/cy/busnes/hyb-busnes-blaenau-gwent/cymorth-a-thwf-busnes/contraftau-a-chyfleoedd/polisi-dim-rhif-archeb-dim-tal/

Cyngor Sir Caerffili https://www.caerphilly.gov.uk/CaerphillyDocs/Procurement/selling_to_the_council.aspx

Cyngor Sir Caerdydd https://www.cardiff.gov.uk/CYM/Busnes/Tendrau-Comisiynu-a-Chaffael/Cyflenwi-i-Gyngor-Caerdydd/dim-archeb-brynu-dim-talu/Pages/default.aspx

Cyngor Sir Ceredigion https://www.ceredigion.gov.uk/media/u3nhuqxh/gwerthu-i-gyngor-sir-ceredigion.pdf

Cyngor Sir Ddinbych https://www.denbighshire.gov.uk/en/documents/business/selling-to-the-council/selling-to-the-council-a-guide-for-suppliers-and-contractors.pdf

Cyngor Sir y Fflint https://www.flintshire.gov.uk/en/PDFFiles/Selling-to-the-council/No-PO-No-Pay-Suppliers-Guide.pdf

GIG Cymru nwssp.nhs.wales/ourservices/accounts-payable/accounts-payable-documents/nhs-wales-no-purchase-order-dim-payment-policy-2024/

Powys https://cy.powys.gov.uk/article/5010/Holi-am-anfoneb

Cyngor Sir Abertawe https://www.abertawe.gov.uk/gwybodaethigyflenwyr?lang=cy

Prifysgol Abertawe https://www.swansea.ac.uk/finance-swansea-university/payments/ https://www.swansea.ac.uk/media/Swansea-Uni-No-PO-no-pay-letter-updated_2.pdf

# Atodiad 1 – Llythyr i gyflenwyr ynghylch diffyg cydymffurfio

**Templed Llythyr at Gyflenwyr - Dim Archeb Brynu**

Annwyl Gyflenwr

Ynghylch: Rhif yr Anfoneb: xxxxxxx

Yn unol â Pholisi Cydymffurfio ag Archebion Prynu Cyngor Sir Caerfyrddin ac fel rhan o ymdrechion parhaus i wella effeithlonrwydd, rydym yn monitro'r prynu sy'n digwydd y tu allan i system archebion prynu swyddogol yr Awdurdod.

Yn ddiweddar gwnaethoch gyflwyno'r anfoneb uchod i ni ond ni ddyfynnwyd rhif Archeb Brynu dilys (PO). Hoffem eich hysbysu bod y defnydd o rifau Archeb Brynu dilys yn orfodol.

Y tro hwn, bydd yr anfoneb yn cael ei hanfon ymlaen i'w hawdurdodi'n ôl-weithredol a bydd eich cyswllt prynu yn cysylltu â chi i esbonio'r camau nesaf. Sylwer fodd bynnag bod y broses hon yn ddewisol ac oherwydd yr amser ychwanegol sy'n gysylltiedig â chael awdurdodiad, efallai y bydd oedi cyn i chi gael eich taliad o ganlyniad. Rydym yn dal i ymrwymo i'n telerau safonol o dalu o fewn 30 diwrnod.

Yn y dyfodol, gofynnwn i chi beidio â derbyn archebion gan Gyngor Sir Caerfyrddin heb dderbyn rhif archeb brynu dilys yn gyntaf, y mae'n rhaid ei ddyfynnu ar eich anfoneb. Bydd hyn yn sicrhau nad yw eich taliad yn cael ei oedi.

Mae gwybodaeth fanwl i Gyflenwyr i'w gweld ar ein gwefan https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/busnes/gwybodaeth-i-gyflenwyr-archebu-a-thalu/

# Atodiad 2 – Llythyr i Staff

**E-bost dim archeb brynu at staff Cyngor Sir Caerfyrddin**

Annwyl Gydweithiwr

**Diffyg cydymffurfiaeth â Pholisi Cydymffurfio ag Archebion Prynu Cyngor Sir Caerfyrddin**

Yn unol â Pholisi Cydymffurfio ag Archebion Prynu yr Awdurdod ac fel rhan o ymdrechion parhaus i wella effeithlonrwydd, mae unrhyw bryniant sy'n digwydd y tu allan i system rheolaeth ariannol Unit4 ERP yn cael ei fonitro.

Derbyniwyd yr anfoneb ganlynol ond nid oes Rhif Archeb Brynu (PO) wedi'i ddyfynnu. Mae eich enw wedi'i nodi gan y Cyflenwr fel y pwynt cyswllt archebu:

Enw:Cliciwch neu tapiwch yma i nodi testun.

Adran:Cliciwch neu tapiwch yma i nodi testun.

Enw'r Cyflenwr: Cliciwch neu tapiwch yma i nodi testun.

Rhif yr Anfoneb:Cliciwch neu tapiwch yma i nodi testun.

Gwerth yr Anfoneb:Cliciwch neu tapiwch yma i nodi testun.

Disgrifiad o'r anfoneb:Cliciwch neu tapiwch yma i nodi testun.

Hoffem eich hysbysu, yn unol â'r Polisi uchod, bod y defnydd o rifau archeb brynu Unit4 ERP yn orfodol.

Os gwnaethoch godi archeb brynu ar Unit4 ERP, cysylltwch â'r Cyflenwr a gofyn iddo ailgyflwyno'r anfoneb gan ddyfynnu'r Rhif Archeb Brynu.

Os **na** wnaethoch y pryniant hwn trwy Unit4 ERP, er mwyn symud ymlaen gyda thalu'r anfoneb hon rhaid i chi godi archeb brynu frys ôl-weithredol ar y system Unit4 ERP (cysylltwch â'r adran credydwyr canolog ar gyfer y weithdrefn frys, peidiwch â defnyddio'r weithdrefn archeb brynu arferol). Unwaith y bydd wedi'i chymeradwyo, rhaid i chi roi derbynneb nwyddau ar gyfer yr archeb frys ac yna gofyn i'r cyflenwr ailgyflwyno'r anfoneb gan ddyfynnu rhif yr archeb brynu. Mae'r cyflenwr wedi cael gwybod y byddwch yn cysylltu â nhw.

Gwnewch yn siŵr bod pob archeb o'r math hwn yn y dyfodol yn cael ei harchebu drwy'r system ariannol yn unig. Mae methu â gwneud hyn yn groes i Reoliadau Gweithdrefnau Ariannol Cyngor Sir Caerfyrddin, yn osgoi rheolaethau, yn arwain at oedi yn y broses dalu anfonebau ac mae perygl y gall amharu ar gyflenwadau.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol bod achosion o ddiffyg cydymffurfio yn cael eu hadrodd yn rheolaidd i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol a gallai hyn effeithio ar eich gallu i godi archebion yn y dyfodol.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â'ch Uned Cymorth Busnes.

Diolch am eich cydweithrediad

# Atodiad 3 - Eithriadau

**Eithriadau**

1. Biliau Cyfleustodau
2. Gwasanaethau post
3. Gwasanaethau llungopïo
4. Talu unigolion (e.e. Taliadau Maeth, Gwirfoddolwyr, Treuliau, Gwobrau, ac ati)
5. Rhenti
6. Adroddiadau meddygol Iechyd Galwedigaethol
7. Tanysgrifiadau i gymdeithasau
8. Grantiau a Thaliadau ar ran cyrff cyhoeddus
9. Trwyddedau Teledu
10. Darpariaethau Cyffredinol (Bwyd a Diodydd) - Arlwyo yn unig
11. Rhai taliadau brys

<u>Tra bod y ddogfen hon yn ymwneud yn bennaf ag anfonebau a brosesir drwy Unit4 ERP, dylid cymhwyso'r un egwyddorion i systemau eraill megis Total a Care First. Fodd bynnag, nid yw'n disodli'r gweithdrefnau system leol hynny.</u>

# Atodiad 4 - Gweithdrefn archebion ôl-weithredol oherwydd diffyg cydymffurfio

Lle mae angen archeb ôl-weithredol oherwydd diffyg cydymffurfio, dylid dilyn y weithdrefn ganlynol:

1. Codi cais am archeb gan ddefnyddio'r adran ceisiadau am archebion **ôl-weithredol** ar gyfer eich adran e.e. E CHIEF. **Peidiwch** â defnyddio'r adran ceisiadau am archebion arferol gan y bydd hyn yn cael ei adrodd fel archeb ôl-weithredol anghyfreithlon.
2. Ar ôl awdurdodi, rhowch y dderbynneb am y nwyddau ar y system ac anfonwch yr archeb brynu ymlaen at y cyflenwr gan nodi'n glir mai dyma'r archeb brynu ar gyfer yr anfoneb a dderbyniwyd eisoes ac nid archeb ychwanegol am nwyddau/gwasanaethau.
3. Gofynnwch i'r cyflenwr ailgyflwyno'r anfoneb wedi'i marcio fel anfoneb Copi gan ddyfynnu'r rhif archeb brynu a roddwyd.
4. Anfonwch yr anfoneb ymlaen yn ddiymdroi i gael ei phrosesu a bydd yn cael ei thalu heb awdurdodiad ac oedi pellach.